Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Camau Cyntaf – First Steps Penrhiwceibr

**Ysgol Gynradd Penrhiwceibr**
**Aberpennar**
**Abercynon**
**CF42 55B**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Camau Cyntaf – First Steps Penrhiwceibr

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Camau Cyntaf - First Steps Penrhiwceibr |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Lisa Thomas |
| Person â gofal | Catherine Williams |
| Nifer y lleoedd | 30 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 3 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 7 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 6 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 08:45 – 15:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn bodloni anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Mai 2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Ddim yn berthnasol |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 21/05/2024 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Ddim yn berthnasol** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfuwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Datblygu'r defnydd o arsylwadau ymhellach i sicrhau y cânt eu defnyddio i gefnogi dysgu a datblygiad plant yn effeithiol

A2 Darparu cyfleoedd i blant arsylwi a datblygu chwilfrydedd ynghylch y byd naturiol a dysgu sut i ofalu am bethau byw

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi yn yr amgylchedd cynhwysol y mae'r lleoliad yn ei ddarparu. Maent yn gwybod eu bod yn cael eu gwrando arnynt a bod eu safbwyntiau'n cael eu hystyried yn llawn. Dros gyfnod, maent yn datblygu ymdeimlad o berthyn ac yn gwybod bod ymarferwyr yn ymatebol i'w hanghenion. Mae bron pob un o'r plant yn dod i mewn i'r lleoliad yn hapus ac yn gwahanu oddi wrth eu rhieni a gofalwyr yn hyderus. Maent yn gyfarwydd ag arferion dyddiol y lleoliad, fel amser grŵp neu amser byrbryd. Mae llawer ohonynt yn mynd at eu hoff ardaloedd yn y ddarpariaeth, dan do ac yn yr awyr agored, lle maent yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac yn manteisio ar adnoddau'n hyderus. Er enghraifft, maent yn dewis chwarae yn yr ardal ddŵr ac yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i lenwi cwpanau neu hongian eitemau i sychu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol ag ymarferwyr ac yn mynd atynt i gael sicrwydd ac arweiniad, yn ôl yr angen. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau personol a chymdeithasol yn effeithiol, yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Maent yn rhannu adnoddau ac yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn effeithiol heb lawer o gymorth. Er enghraifft, maent yn rhannu cyllyll diogelwch wrth dorri llysiau ac yn cymryd tro wrth ddefnyddio'r beiciau tair olwyn. Mae ychydig ohonynt yn dechrau chwarae ar y cyd, fel wrth iddynt ddefnyddio'r blociau i adeiladu gyda'i gilydd.

Mae llawer o blant yn cyfathrebu'n fwyfwy hyderus ac yn mynegi eu hanghenion yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o blant hŷn yn ymateb yn dda i'r cymorth iaith effeithiol sy'n cael ei gynnig gan ymarferwyr ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu medrau iaith. Er enghraifft, maent yn defnyddio amrywiaeth gynyddol o eirfa gyfoethog, fel *'telescope'* a *'stargazing'* wrth edrych ar hoff lyfr.

Mae bron pob un o'r plant yn rheoli eu hymddygiad yn dda ac yn gwrando'n effeithiol ar gyfarwyddiadau ymarferwyr. Maent yn dechrau adnabod eu teimladau a siarad amdanynt, fel wrth iddynt ddisgrifio emosiynau doliau neu gymeriadau wrth chwarae rôl. Mae llawer o blant yn canolbwyntio'n llwyddiannus ac yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig wrth arwain eu chwarae eu hunain. Caiff plant gyfleoedd da i ddatblygu annibyniaeth, sy'n eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain. Er enghraifft, gall y rhan fwyaf ohonynt wisgo eu cotiau eu hunain, golchi eu dwylo a gweini eu dŵr a llaeth eu hunain wrth gael byrbryd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad:  Da**

Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr ddealltwriaeth gref o'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ac maent yn rhoi'r rhain ar waith yn effeithiol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae ymarferwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd trwy gwblhau gwiriadau dyddiol o'r ardaloedd dan do ac awyr agored. Maent yn goruchwylio plant yn dda ac mae'r lleoliad yn aml yn rhagori ar gymhareb ofynnol yr oedolion i blant. Maent wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf yn llwyddiannus ac yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn effeithlon. Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau o ran rhoi, cofnodi a chadw meddyginiaeth yn ddiogel. Maent wedi cwblhau hyfforddiant hylendid bwyd priodol ac mae eu gweithdrefnau'n gyson dda. Mae ymarferwyr yn sicrhau urddas a phreifatrwydd wrth ddilyn y polisi newid cewynnau ac yn cadw cofnodion effeithiol o'r gweithdrefnau sy'n cael eu dilyn. Mae ganddynt system gofrestru effeithiol a threfnus, gan gynnwys sicrhau bod yr holl gofnodion caniatâd angenrheidiol ar waith.

Mae'r ymarferwyr wedi meithrin perthnasoedd cynnes a meithringar â'r plant ac yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn garedig, yn bwyllog ac yn arddel ymagwedd lawen tuag at eu gwaith. O ganlyniad, mae chwerthin i'w glywed rhwng yr ymarferwyr a'r plant yn aml. Mae ymarferwyr yn annog plant i ymddwyn yn briodol a dysgu sut i rannu a chymryd tro. Maent yn canmol plant yn rheolaidd, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu eu medrau a'u hunanhyder. Yn ystod amser byrbryd, mae plant yn cael cynnig cyfleoedd i gymdeithasu ag ymarferwyr o gwmpas byrddau dynodedig, gan drafod eu hoff a chas bethau a sicrhau ymddygiad cadarnhaol.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion a'u dymuniadau unigol. Maent yn annog plant yn weithredol i gyfathrebu ac yn ymateb i unrhyw gyfathrebu yn gadarnhaol ac yn gyflym. Mae ymarferwyr yn arsylwi plant mewn modd sensitif ac effeithiol ac yn gwybod pryd i holi, cynnig esboniadau a syniadau i annog plant i feddwl a datrys problemau. Maent yn symud sgyrsiau plant ymlaen trwy holi'n bwrpasol.

Mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn llwyddiannus trwy gysylltiadau effeithiol ag asiantaethau allanol, gan gynnwys therapyddion iaith a lleferydd ac ymwelwyr iechyd. Mae ymarferwyr yn gweithredu'n effeithlon ar arweiniad sy'n cael ei gynnig trwy gyfarfodydd rheolaidd. Maent yn cynllunio ac yn cynnig gweithgareddau a phrofiadau diddorol sy'n hyrwyddo dysgu'r plant a'u datblygiad cyffredinol yn llwyddiannus.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn cynnig amgylchedd dysgu croesawgar a difyr dan do ac yn yr awyr agored sy'n ysbrydoli chwilfrydedd ac ymchwilio plant mewn llawer o agweddau ar y cwricwlwm. Maent wedi datblygu ardaloedd y ddarpariaeth yn feddylgar i hybu dewis ac annibyniaeth. Er enghraifft, mae ardal greadigol yn cynnig ystod o ddeunyddiau ac offer sy'n cefnogi mynegiant unigol y plant yn dda.

Mae ymarferwyr yn cefnogi datblygiad medrau cyfathrebu ac iaith plant yn llwyddiannus. Defnyddiant ystod o strategaethau buddiol i atgyfnerthu ac ymestyn iaith y plant wrth iddynt chwarae. Mae ymarferwyr yn adeiladu'n effeithiol ar ddiddordeb y plant mewn storïau trwy ddarparu llyfrau ym mhob rhan o'r amgylchedd ac yn yr ardal ddarllen glyd. Maent yn darllen i'r plant yn rheolaidd ac yn siarad am eu hoff lyfrau wrth iddynt edrych ar y lluniau gyda'i gilydd. Mae hyn yn annog y plant i drin llyfrau'n annibynnol. Mae'r lleoliad yn cynnig llawer o gyfleoedd i blant ddatblygu medrau gwneud marciau cynnar fel paent, sialc a dŵr.

Mae ymarferwyr yn cefnogi medrau digidol y plant yn llwyddiannus trwy gyfleoedd i archwilio ystod o offer fel byrddau golau a chamerâu digidol. Maent yn cynnwys plant mewn gweithgareddau canu ac adrodd rhigymau sy'n cefnogi eu datblygu yn addas ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae plant yn datblygu eu medrau Cymraeg a rhifedd yn briodol wrth iddynt adrodd rhifau wrth ganu caneuon yn Saesneg a Chymraeg. Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau sy'n hybu treftadaeth ddiwylliannol Cymru yn briodol, er enghraifft trwy ddathlu digwyddiadau fel Dydd Gŵyl Dewi a chymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol fel addurno llwyau caru.

Mae'r lleoliad yn cefnogi datblygu creadigol y plant yn dda. Mae ymarferwyr yn cynnig ystod o ddeunyddiau ac offer sy'n galluogi plant i archwilio ystod o gyfryngau fel toes, paint a gludwaith yn effeithiol. Mae amrywiaeth o offerynnau cerdd, fel allweddell ddigidol a thelyn fach, yn annog plant i archwilio sain, gan gynnwys tôn ac amrediad, yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn dechrau adlewyrchu diddordebau'r plant yn effeithiol mewn profiadau dysgu. Maent yn arsylwi chwarae'r plant ac yn gwneud ychydig o

addasiadau i’r ddarpariaeth er mwyn ymateb i hynny. Er enghraifft, maent yn darparu rhwymynnau yn yr ardal chwarae rôl ar ôl sylwi ar y plant yn esgus gofalu am ddoli sâl. Mae hyn yn cefnogi ac yn ymestyn dysgu’r plant yn effeithiol.

Mae ystod o brofiadau dysgu yn hybu datblygiad moesol, ysbrydol a diwylliannol plant yn addas. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn meithrin ymdeimlad o ryfeddod a pharchedig ofn yn y plant wrth eu hannog i syllu ar blisgyn wy sydd wedi torri a ganfuwyd ar y ffordd i’r feithrinfa. Mae ymarferwyr yn darparu ychydig o adnoddau naturiol i blant eu harchwilio, fel cregyn a moch coed. Maent yn cynnig ychydig o gyfleoedd i blant ddysgu am bethau byw, fel dyfrio’r planhigion. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae cyfleoedd i blant ddysgu am y byd naturiol a sut i ofalu am bethau byw o brofiadau uniongyrchol yn gyfyngedig.

At ei gilydd, mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion dysgu sylfaen. Maent yn cynnig digon o amser i’r plant ddilyn eu diddordebau ac arwain eu chwarae eu hunain. Mae bron pob un o’r ymarferwyr yn cefnogi datblygiad cymdeithasol y plant yn dda. Maent yn cynorthwyo’r plant i rannu, cymryd tro ac edrych ar ôl adnoddau. Mae ymarferwyr yn esbonio’r rhesymau am eu disgwyliadau yn glir ac mae hyn yn arwain at lawer o blant yn trin pobl eraill â charedigrwydd.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn nodi eu cryfderau a’u meysydd i’w gwella yn llwyddiannus. Maent yn arsylwi’r plant yn rheolaidd ac yn gwneud cofnod o’u cyflawniadau a’u diddordebau. Fodd bynnag, dim ond megis dechrau y mae gwerthuso’r lleoliad a’i ddefnydd o’r wybodaeth hon i gefnogi dysgu a datblygiad y plant. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod rhieni’n wybodus am y gweithgareddau mae’r plant yn eu gwneud a’u cynnydd trwy ap cyfathrebu a chrynodebau cynnydd tymhorol.

**Yr amgylchedd:  Da**

Mae arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch plant ac yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau addas ar waith i leihau unrhyw beryglon posibl. Maent yn cynnal asesiadau risg effeithiol sy’n cael eu hadolygu’n rheolaidd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd a’r adnoddau yn ddiogel, yn lân ac yn drefnus. Mae’r safle’n ddiogel ac mae ymarferwyr yn sicrhau y caiff y gatiau allanol eu cau’n brydlon ar ôl i’r plant gyrraedd. Mae’n ofynnol i ymwelwyr ddangos dull adnabod a llofnodi i mewn wrth gyrraedd. Mae’r lleoliad yn cadw cofrestr fanwl o’r plant a’r ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod pwy sydd yn yr adeilad. Mae arweinwyr yn cynnal a chadw’r adeilad yn dda. Maent yn sicrhau bod offer diogelwch y lleoliad, fel diffoddwyr tân, yn cael eu trin yn rheolaidd ac maent yn cynnal ymarferion tân rheolaidd.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar ac yn ddeniadol a’i fod yn cynnig amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae ac archwilio. Mae’r lleoliad yn hunangynhwysol ar dir yr ysgol ac mae’n darparu lle priodol ar gyfer nifer y plant sy’n bresennol. Mae toiledau a chyfleusterau addas ar gyfer newid cewynnau. Caiff yr amgylcheddau dan do ac awyr agored eu defnyddio’n dda i hybu datblygiad medrau’r plant ac mae hyn yn eu galluogi i ddewis ble maent yn chwarae ar gyfer y rhan fwyaf o’r sesiwn. Mae cydbwysedd addas rhwng sicrhau diogelwch y plant a chynnig

cyfleoedd iddynt herio eu hunain a mentro. Mae ymarferwyr wedi creu amgylchedd symbylol yn yr ardal awyr agored. At ei gilydd, mae’r ddarpariaeth hon yn cefnogi dysgu a datblygiad plant yn dda. Fodd bynnag, dim ond ychydig o adnoddau neu brofiadau sydd i blant ymchwilio ac archwilio’r byd naturiol. Mae hyn yn cyfyngu ar eu cyfleoedd i arsylwi a datblygu chwilfrydedd am y byd naturiol a sut i ofalu am bethau byw.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y dodrefn, offer ac adnoddau o ansawdd da ac yn briodol ar gyfer cam datblygu’r plant. Caiff adnoddau eu cadw ar lefel isel ac maent yn hawdd i’r plant eu cyrraedd. Mae’r lleoliad yn darparu teganau a deunyddiau chwarae sy’n hybu amrywiaeth ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn addas, gan gynnwys doliau, llyfrau a dillad chwarae rôl. Mae ymarferwyr yn modelu ailgylchu i’r plant trwy ddefnyddio teganau a deunyddiau wedi’u hailgylchu yn yr amgylchedd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad i sicrhau bod pob un o’r plant yn hapus ac yn gwneud cynnydd da wrth iddynt ddysgu trwy chwarae. Maent wedi creu amgylchedd cynhwysol a difyr, sy’n sicrhau bod y plant yn cael eu hannog a’u bod yn gofalu amdanynt yn dda. Mae arweinwyr yn datblygu ymdeimlad cryf o waith tîm yn y lleoliad ac yn rhoi cymorth effeithiol i ymarferwyr, gan gynnwys eu lles. Maent yn cyfarfod ag ymarferwyr yn rheolaidd ac yn cynnig cyfathrebu clir, sy’n arwain at rediad rhwydd y lleoliad. Mae arweinwyr yn drefnus ac mae ganddynt ystod werthfawr o bolisïau y maent yn eu rhannu’n effeithiol â rhieni ac ymarferwyr. Maent yn cydymffurfio â rheoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol. Mae’r datganiad o ddiben yn glir ac yn cynnig darlun cywir o’r lleoliad, sy’n caniatáu i rieni wneud penderfyniadau gwybodus am addasrwydd y lleoliad i’w plentyn.

Mae arweinwyr yn rhoi prosesau diogel a phriodol ar waith ar gyfer recriwtio a defnyddio ymarferwyr. Mae rhaglen ymsefydlu fuddiol yn sicrhau bod ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael cymorth da, eu bod yn deall disgwyliadau a bod ganddynt wybodaeth gref am nodau ac ethos y lleoliad. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan ymarferwyr swydd ddisgrifiadau glir a’u bod yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau yn dda. Mae hyn yn cefnogi gwaith y lleoliad yn llwyddiannus. Er enghraifft, dyrannwyd cyfrifoldeb i ymarferwyr unigol i ddatblygu maes penodol o’r ddarpariaeth ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd dysgu. Mae arweinwyr yn cynnal gwerthusiadau a goruchwyliaeth reolaidd ag ymarferwyr, sy’n nodi meysydd i’w gwella yn glir. Fodd bynnag, o bryd i’w gilydd, mae targedau’n canolbwyntio ar gwblhau tasgau yn hytrach na datblygu dysgu a datblygiad plant.

Mae ymarferwyr yn deall blaenoriaethau’r lleoliad a’r gwelliannau sy’n cael eu gwneud. Er enghraifft, maent yn disgrifio sut mae newidiadau diweddar i gynllunio wedi cynyddu ymgysylltiad plant â’u chwarae. Mae pob un o’r ymarferwyr yn dangos ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus a gwella eu harfer. Mae arweinwyr yn cynnig ystod ddefnyddiol o gyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr i ymarferwyr, fel hyfforddiant sy’n gysylltiedig â Chwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol. Er enghraifft, erbyn hyn, mae’r lleoliad yn rhoi pwyslais cryfach ar gynorthwyo plant i arwain eu dysgu eu hunain. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol o gyfleoedd dysgu proffesiynol â’i

gilydd. Er enghraifft, rhannodd ychydig o ymarferwyr wybodaeth allweddol a gafwyd o hyfforddiant iaith a chyfathrebu. Oherwydd hynny, mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn cefnogi datblygiad iaith y plant yn dda.

Gwna arweinwyr ddefnydd buddiol o ymarferwyr ac adnoddau i gefnogi lles a dysgu'r plant yn llwyddiannus. Maent yn rhagori ar nifer ofynnol yr ymarferwyr â chymwysterau addas yn rheolaidd i sicrhau y caiff anghenion plant eu bodloni'n dda. Mae digonedd o adnoddau ac maent o ansawdd da. Er enghraifft, mae ardaloedd o'r ddarpariaeth ag adnoddau da yn cefnogi chwilfrydedd ac ymgysylltiad y plant yn effeithiol.

Mae gan y lleoliad ystod ddatblygol o bartneriaethau sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau i blant. Mae arweinwyr wedi meithrin perthnasoedd cryf â rhieni a gofalwyr plant. Maent yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol am blant, fel eu hoff a chas bethau a sut gallant gael eu cefnogi yn y lleoliad. Mae hyn yn cynnig gwybodaeth werthfawr i ymarferwyr i'w helpu i fodloni anghenion plant yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod rhieni plant yn wybodus am gynnydd eu plant a'r gweithgareddau maent yn cymryd rhan ynddynt trwy gyfarfodydd rheolaidd a chymwysiadau cyfathrebu'r lleoliad.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/07/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 24 Gorffennaf 2024